

CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer
Bethan Roberts
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Tregarth
Nos Iau 16 Mai 2019 am 18.30

PRESENNOL:

Y Cynghorydd Dafydd Owen

Y Cynghorydd Mair Leverett

Y Cynghorydd Angharad Williams

Y Cynghorydd Dafydd Roberts

Y Cynghorydd Gabrielle Wyn

Y Cynghorydd Richard Fraser-Williams

Y Cynghorydd Huw P Jones

Y Cynghorydd Iwan Hywel

Y Cynghorydd Mary Hayes

1. Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Iwan Hywel.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Mair Owen Pierce, Jacob Milner a Gwen Griffith.

2. Cofnodion

Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2019.

3. Materion yn codi o'r cofnodion

3.1 Ffens wedi disgyn ar y Lôn Las wrth gerdded tuag at y twnnel. Cadarnhawyd fod yr gwaith wedi gael ei gwblhau, ond wedi derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod yr contractwyr wedi gadael llanast. Y Cyng. Dafydd Owen wedi ymweld a'r safle, ac wedi clirio'r llanast.

3.2 Lloches bws yn mynedfa pentref Llandygai – Cyng. Richard Fraser-Williams wedi gwneud ymholiadau prisiau, ac wedi derbyn 3 amcan bris. Cyngor Gwynedd yn caniatáu yr gwaith arfaethedig cyhyd bod yr contractwr hefo'r cymwysterau angenrheidiol. Y Cyngor yn hapus gyda amcan bris y contractwr lleol, ac yn caniatáu i'r gwaith gychwyn cyn gynted a bu'r modd.

3.3 Goleuadau stryd Mynydd Llandygai – problemau gyda rhai ohonynt:

Tan y Bwlch – golau yn diffodd am 9.30yh

Llwybr Main – golau ddim yn gweithio

Llwybr Main – y golau sydd ar yr arwydd ' Ildiwch' yn fflachio.

Cyng. Richard Fraser-Williams am fynd o amgylch y pentref i weld os yw'r gwaith wedi gael ei gwblhau.

3.4 Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig – Nodwyd fod Cyngor Gwynedd wedi lleoli 3 'monitor' ar hyd y ffordd, disgwyl canlyniadau'r arolwg.

- 3.5 Diffibriliwr Tregarth – y Clerc wedi archebu 3 arwydd, a nodwyd y bydd yr hyfforddwr yn eu gosod cyn y noson hyfforddiant ar y 29fed o Fai 2019. Y Clerc i danfon manylion Tomos Hughes, Elusen Achub Calon y Dyffryn i Cyng. Mary Hayes.
- 3.6 Y Clerc wedi derbyn ebost gan yr Adran Cynllunio ynglŷn a gosod diffibriliwr yn Neuadd Talgai, Llandygai. Nodwyd bod ddim yn bosib eu leoli yno oherwydd ei fod yn adeilad rhestredig. Y Clerc i wneud ymholiadau gyda elusennau i weld os ydynt wedi dod ar draws y math yma o drafferth o'r blaen, ac hefyd i drafod y posibilrwydd o leoli'r diffibriliwr ar y lloches bws arfaethedig.
- 3.7 Llwybr o Parc fyny at Lôn y Grug – Y Cyng. Dafydd Owen wedi cyfarfod gyda Cyng. Richard Fraser-Williams ar y safle, ac wedi cysylltu gyda swyddog yn Cyngor Gwynedd ynglŷn a gael arwyddion. Y Clerc i ofyn am diweddariad.
- 3.8 Bin Halen newydd yn Bro Syr Ifor – disgwyl diweddariad.
- 3.9 Carreg yn rhydd ger Min y Coed, Llandygai – Cyng. Dafydd Owen wedi hysbysu Cyngor Gwynedd.
- 3.10 Ymddiswyddiad Cyng. Mair Jones – Y Clerc wedi hysbysu Raymond Harvey, Cyngor Gwynedd. Disgwyl am ymateb i weld beth yw'r camau nesaf.
- 3.11 Cynllun Wifi Bwthyn Ogwen – Cytunwyd nid yw'r Cyngor am fynd yn ei flaen gyda'r prosiect oherwydd y costau cysylltiedig. Y Clerc wedi ymateb i Partneriaeth Ogwen, a cynnig eu bod yn cysylltu gyda'r Parc Genedlaethol ac yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
- 3.12 Cyfraniad eich cyngor at wefan Deall Lleoedd Cymru – Cyng. Dafydd Roberts wedi drafftio ymateb, y Clerc i'w ddanfon ymlaen.
- 3.13 Cyng. Dafydd Owen wedi gwneud trefniadau torri llwybrau gyda'r contractwr presennol G Williams. Y Clerc wedi danfon ebost i'r Barterniaeth i hysbysu bod yr Cyngor yn awyddus iawn i gyfuno'r gwaith torri llwybrau gyda Cyngor Cymuned Bethesda a Llanllechid, a gofyn i'r Bartneriaeth i wneud ymholiadau pellach gyda'r ddau gyngor cymuned.
- 3.14 Nodwyd Cyng. Dafydd Roberts fod twll mawr wedi ymddangos ar Lon y Wern – yr gwaith bellach wedi ei gwblhau.
- 3.15 Adroddwyd fod un o drigolion ardal Talybont yn glanhau ardal Talybont a Llandygai yn wirfoddol. Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi ei waith ac hoffai rhoi rhodd i ddweud diolch. Cyng. Mair Leverett i drafod ymhellach gyda'r unigolyn.
- 3.16 Adroddwyd fod y ffordd ar waelod allt St Anns yn warthus – ebost wedi'i danfon eisoes i'r holl Gyngor i hysbysu'r gwaith arfaethedig sydd i'w gwblhau yn ystod mis Mehefin.

4. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Mai 2019'

Cyflwynwyd: Ebost Cyng. Dafydd Owen – Lon Drol rhwng Rallt Uchaf a Ty'n Llidiart – trafferthion gyda cerbydau yn meddwl bod digon o led ond yn cael eu hunain mewn trafferthion enbyd. Maent yn mynd yn sownd, yn tynnu waliau i lawr a difrodi wyneb y lon, heb son am wneud difrod i'w moduron eu hunain. Nodwyd Cyng. Dafydd Owen eu bod wedi gwneud trefniadau i ymweld a'r safle gyda swyddog Cyngor Gwynedd.

Cyflwynwyd: Ebost gan Adran Cynllunio, Cyngor Gwynedd – Diffibriliwr Llandygai – wedi'i drafod uchod, o dan pwynt 3.6.

Cyflwynwyd: Moelyci – llawer o newidiadau wedi digwydd ar y Mynydd yn dilyn perchnogaeth newydd. Wedi derbyn ebost gan Cyfoeth Naturiol Cymru i gadarnhau fod y perchnogion newydd yn gweithio yn agos iawn gyda'r sefydliad, a bod yr gwaith sydd wedi gael ei gwblhau (ffensio a giataiu newydd, llosgi ayyb) wedi bod yn angenrheidiol. Cyng. Huw Jones i ofyn wrth CNC os oes modd rhannu'r ddogfen ar grwpiau cyfryngau cymdeithasol.

Cyflwynwyd: Ebost gan Gwasanaeth Adnoddau, Cyngor Gwynedd – Panel Apel Mynediad a Phanel Gwharddiad Disgyblion – y Cyngorwyr i ymateb yn unigol os ydynt hefo diddordeb.

Cyflwynwyd: Neuadd Goffa Mynydd Llandygai – Cais am rhodd at system newydd CCTV – penderfynwyd danfon y ffurflen rhodd newydd i'r ymgeiswyr, ac iddynt eu cwblhau erbyn y cyfarfod nesaf.

Cyflwynwyd: Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad, Cyngor Gwynedd – Cyfyngiadau Parcio – penderfynwyd fod yr Cyngor yn cefnogi.

Cyflwynwyd: Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, Llywodraeth Cymru – Astudiaeth Barcio Bwthyn Ogwen A5 – y Cyngor hefo dim gwrthwynebiad gyda'r cyfyngiadau parcio arfaethedig.

Cyflwynwyd: Ebost Mr Howard-Jones – cais am dogfennau'r Cyngor drwy gyfrwng y Saesneg – y Clerc i gael prisiau ar gyfer cyfieithu'r dogfennau perthnasol, ac hefyd i wneud ymholiadau gyda Rheolwr Gweinyddol os oes amser ac adnoddau ar gael i gyfieithu'r cofnodion yn fisol, ac i gael amcan bris ar gyfer cyfieithu yn fisol.

5. Gwaith y mis

5.1 Adroddwyd Cyng. Dafydd Owen fod G Williams wedi dechrau ar y gwaith torri a glanhau llwybrau.

5.2 Nodwyd Cyng. Mair Leverett bod yr llwybr rhwng Bryn a'r Clwb Rygbi wedi gor-dyfu- Cyng. Dafydd Owen i hysbysu swyddog llwybrau, Cyngor Gwynedd.

5.3 Adroddwyd bod cwynion wedi ei dderbyn yngylch yr adeiladau allanol rhwng Pandy a Tan Lon, Tregarth, llawer mwy o geir yn mynd yn ôl ac ymlaen o'r lleoliad. Y Clerc i gysylltu hefo'r adran gynllunio.

5.4 Cwynion wedi'i dderbyn ynglyn a chwistrellu chwyn laddwr ar ochr yr lonydd, ac bod hyn yn mater iechyd a diogelwch, yn enwedig gyda'r plant yn cerdded i ac o'r ysgol. Penderfynwyd i'r Clerc cysylltu hefo Steffan Jones yn yr adran Briffyrdd, ac gofyn iddynt i beidio a chwistrellu o gwbl ym mhlwyf Llandygai.

5.5 Adroddwyd bod yr gwaith llenwi tyllau ar hyd y lonydd yn warthus, a bod yr gwaith ddim yn gael ei selio yn iawn, ac felly ddim yn parhau dim. Y Clerc i hysbysu'r adran priffyrdd, a gofyn iddynt i gwblhau'r gwaith i'r safon priodol yn y dyfodol. Cyng. Richard Fraser-Williams i danfon lluniau gyda esiamplau.

6. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr Canolfan Tregarth – Dim i'w adrodd.

Neuadd Talgai – Dim i'w adrodd.

7. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

7.1. Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Ebrill.

7.2. Asesiad risg a dogfennau eraill (Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, Cod Ymddygiad) i'w gylchredeg i'r Cynghorwyr cyn yr cyfarfod nesaf, a'i mabwysiadu yn y cyfarfod nesaf.

8. Taliadau

Dim taliadau.

9. Penderfyniadau Cynllunio

C15/0966/16/MG

Tir ger Pentwmpath, Llandygai
Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer
codi 15 tŷ gan gynnwys 5 tŷ
fforddiadwy

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

C18/0571/16/HY

Llys y Gwynt, Bangor
Arwyddion amrywiol wedi ei goleuo
ac heb eu goleuo

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

NP3/16/28

Ogwen Falls Snack Bar, Nant Ffrancon,
Bethesda

Codi monopolyn 15m o uchder wedi'i
gladio â choed

Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

C18/0169/16/CR

Fferm Cororion, Lon y Wern, Tregarth
Dymchwel estyniad unllawr presennol
(ôl-weithredol) a gosod estyniad yn ei
le

Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

C18/0767/25/LL

Coed Wern, Glasinfryn
Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety,
adeilad derbynfa, a chreu 2
nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio
ffyrdd mynediad cysylltiedig a
meysydd parcio, tirweddu a gwaith
cysylltiedig eraill.

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

C18/0422/16/LL

Y Wern, 2, Pentref Llandygai
Apêl – Codi tŷ deulawr, llecynau parcio
ynghyd ac offer trin carthion
Penderfyniad: Gwrthod mewn Apêl

C19/0105/16/LL

Clwb Criced Bangor, Ffordd Llandygai,
Llandygai
Dymchwel yr adeilad presennol sy'n
cael ei ddefnyddio gan y clwb criced a
chodi adeilad newydd yn ei le
Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

C19/0244/16/LL

Tyddyn y Felin, Felin Hen Road,
Estyniad a newidiadau
Penderfyniad: Cais wedi'i gofrestru

C19/0236/16/LL

Zip World, Chwarel y Penrhyn
Newid defnydd tir ar gyfer
gweithgareddau cartio gyfochrog a'r
ffordd bresennol ynghyd a chodi
clawdd gwahanu
Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd.

C19/0370/16/LL

5 Ffrwd Galed, Tregarth
Codi modurdy / storfa
Penderfyniad: Cais wedi'i gofrestru

10. Ceisiadau Cynllunio

C19/0371/16/LL

1 Bryniau Terrace, Mynydd Llandygai
Codi estyniad llawr cyntaf yn y cefn
Penderfyniad: Cefnogi

C19/0408/16/LL

Ynys Ganol, Mynydd Llandygai
Estyniadau a newidiadau
Penderfyniad: Cefnogi

13. Unrhyw fater brys arall

Nodwyd ein cydymdeimlad dwysaf tuag deulu cyn-aelod o'r Cyngor, Mr Colin Jones. Y
Clerc i ddanfôn cerdyn cydymdeimlad i'r teulu.

Nodwyd hefyd bod gwraig cyn-Glerc y Cyngor, Mrs Myra Evans wedi bod yn wael, y
Clerc i ddanfôn cerdyn gwellhad buan.